Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a
Philip Blaker,
Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane,
Casnewydd
NP10 8UH

6 Ebrill 2020

Annwyl Philip a David

Fel y gwyddoch, rydym yn wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen wrth ymateb i effaith y pandemig coronafeirws. Fy mlaenoriaethau yn ystod y cyfnod hwn yw diogelu iechyd a lles ein dysgwyr a'r gweithlu addysg, a lleihau gymaint â phosibl yr effaith ar eu cynnydd addysgol.

Rwy'n ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a chyngor yr ydych chi a'ch swyddogion wedi eu rhoi i mi hyd yn hyn ac rwy'n cydnabod y pwysau ychwanegol y mae digwyddiadau'r wythnosau diwethaf yn debygol o fod wedi'i greu i chi.

Ar ddechrau mis Mawrth, fe wnes i'r penderfyniad anodd i gau ysgolion, colegau a lleoliadau blynyddoedd cynnar i bawb heblaw plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed. Yn ogystal, ac yn dilyn trafodaethau manwl gyda chi a CBAC, penderfynais ganslo arholiadau'r haf a threfnu i roi graddau i fyfyrwyr TGAU, UG a Safon Uwch sy'n seiliedig ar yr ystod o dystiolaeth sydd ar gael er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth ac addysg bellach yn y dyfodol.

Diben y llythyr hwn yw rhoi'r Cyfarwyddyd amgaeedig i chi o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Gweinidogion Cymru ar ganslo arholiadau a dyfarnu graddau o ganlyniad. Byddaf hefyd yn ysgrifennu atoch ar wahân ynghylch y trefniadau y bydd angen eu gwneud ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Rwy'n hyderus y gallwn, drwy barhau i gydweithio, gynnal cadernid a hygrededd ein system gymwysterau a sicrhau'r dull gweithredu tecaf ar gyfer ein dysgwyr, er mwyn gwneud siŵr nad ydynt dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu allan i'w rheolaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015
O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw agweddau ar bolisi'r llywodraeth a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i'r canlynol:

- polisi Llywodraeth Cymru y dylai'r cohort o ddysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer haf 2020 gael eu canlyniadau'r haf hwn.

  Cafodd datganiad polisi ynghylch canslo arholiadau haf 2020 a rhoi graddau amcangyfrifedig ar gyfer dysgwyr a oedd fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch, er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i waith neu addysg bellach, ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar 18 Mawrth 2020 ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen hon: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadaur-haf>

- polisi Llywodraeth Cymru y dylai'r cohort o ddysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer haf 2020 gael canlyniadau sy'n seiliedig ar ddyfarniadau eu canolfannau arholi o'u cyrhaeddiad yn y pynciau perthnasol, a ategir gan ystod o dystiolaeth arall.

- polisi Llywodraeth Cymru bod dull gweithredu teg a chadarn yn cael ei fabwysiadu ar gyfer rhoi graddau i'r cohort o ddysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer haf 2020, sy'n cynnwys pennu'r dull y mae'n rhaid i ganolfannau arholi ei ddilyn wrth wneud eu dyfarniadau ynghylch cyrhaeddiad eu dysgwyr, safoni dyfarniadau'r canolfannau a sicrhau bod trefniadau apelio ar gael i'r dysgwyr hynny sy'n teimlo nad yw'r broses wedi'i dilyn yn gywir ar gyfer eu graddau nhw.

- polisi Llywodraeth Cymru bod dull gweithredu teg a chadarn yn cael ei fabwysiadu ar gyfer rhoi graddau i'r cohort o ddysgwyr TGAU a Safon Uwch ar gyfer 2021, y mae canslo arholiadau haf 2020 wedi effeithio arnynt.